**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

14 Mai 2024

Annwyl Sarah

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill 2024 am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Tybaco a Fêps y DU, sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil hwn ar 9 Mai.

Fel y dywedwch, cyhoeddwyd y bwriad i ddeddfu yn y maes hwn gan y Prif Weinidog yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol ar 4 Hydref. Bryd hynny, nid oedd unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd ar 6 Hydref i gael trafodaeth gychwynnol am y cynigion. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn cytuno mewn egwyddor i gynnal ymgynghoriad ar y cyd ledled y DU ynghylch mesurau i greu cenhedlaeth ddi-fwg ac i fynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc, yn ddarostyngedig i adolygiad swyddogion o'r papur ymgynghori. Wrth i'r ymgynghoriad gael ei lansio ar 12 Hydref, bu fy swyddogion yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod safbwynt Cymru yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn y dogfennau ymgynghori ac i gefnogi darparu'r ddogfen ymgynghori yn Gymraeg.

Ar 7 Tachwedd, yn Araith y Brenin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno'r Mesur Tybaco a Fêps ym mhedwaredd sesiwn Senedd y DU. Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd ataf ar 22 Tachwedd yn gofyn am fy marn ar wneud y Bil arfaethedig yn gymwys i Gymru. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 24 Tachwedd ei bod yn fodlon nodi mewn egwyddor y dylai'r Bil Tybaco a Fêps fod yn gymwys i Gymru a chadarnhaodd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fanylion y darpariaethau a'u cymhwyso i Gymru.
Yn dilyn yr ymgynghoriad, bu fy swyddogion yn cefnogi'r broses o ddadansoddi'r ymatebion ac rydym wedi gweithio gyda gwledydd eraill y DU i ddatblygu'r cynigion polisi a deddfwriaethol, gan gynnwys datblygu'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad. Ar 12 Ionawr 2024, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd i gadarnhau ei chytundeb i ddogfen canlyniadau'r ymgynghoriad nodi'r cyfeiriad polisi mewn perthynas â Chymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 29 Ionawr gan Lywodraeth y DU a chyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant Ddatganiad Ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Cynhaliwyd cyfarfod a fynychwyd gan Weinidogion a chynrychiolwyr y pedair gwlad ar 17 Ionawr i drafod datblygu'r Bil. Rhannodd swyddogion Llywodraeth y DU ddrafftiau o'u dogfennau polisi a chymalau drafft y Bil wrth iddynt gael eu datblygu er mwyn i'm swyddogion roi eu safbwytniau hwythau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r darpariaethau. Roedd fy swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfod wythnosol rheolaidd â swyddogion o wledydd eraill y DU i drafod materion polisi a datblygu'r Bil.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant adolygu a nodi fersiwn ddrafft o'r Bil ar 12 Chwefror. Ar 18 Mawrth, ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i'w hysbysu y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno ar 20 Mawrth, gan amgáu fersiwn ddrafft bellach o'r Bil. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 19 Mawrth.

Roedd Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn un o'r ystyriaethau pam y byddai'n briodol mabwysiadu dull gweithredu pedair gwlad o ymdrin â Bil Tybaco a Fêps y DU, ond y brif ystyriaeth oedd budd iechyd y cyhoedd. Rydym wedi penderfynu cyfranogi yn y Bil hwn gan ei fod, os caiff ei basio, yn un o'r ymyriadau iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol mewn cenhedlaeth. Mae hon yn farn sy'n cael ei rhannu gan lawer o randdeiliaid yn ystod sesiynau tystiolaeth diweddar y Pwyllgor ar y Bil.

Gwnaed y penderfyniad i gydweithio yn gynnar yn ystod y broses gan y gallai pob llywodraeth weld y byddai dull gweithredu unedig yn arwain at fuddion clir i iechyd y cyhoedd. O gofio bod y Bil wedi'i gynllunio ar gyfer y bedwaredd sesiwn Seneddol, rhoddodd y Bil gyfle hefyd i ymateb yn gyflym i faterion hollbwysig iechyd y cyhoedd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag bod yn gaeth i nicotin.

Bu ichi ofyn hefyd pa drafodaethau a gawsom gyda Llywodraeth y DU ynghylch lefel y manylion ar wyneb y Bil, a chwmpas a gweithdrefn y pwerau dirprwyedig. Ar y cyd â'n cydweithwyr ledled y DU, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn ac yn credu bod y cydbwysedd cywir wedi'i daro y tro hwn rhwng yr angen i graffu yn briodol ar y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r angen i gadw hyblygrwydd, yn benodol, i ymateb i'r diwydiant fepio sy'n esblygu'n gyflym. Trafodwyd y dull gweithredu mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn ystod y cyfarfod ar 17 Ionawr.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ei safbwynt yn glir, sef na ddylai unrhyw bwerau yn y Bil sydd i fod yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru (er enghraifft y rhai yn Rhan 4 o'r Bil, sy'n rheoleiddio gofynion cynnyrch cynhyrchion tybaco a fepio) gael eu gwneud, ar y cyfan, ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (gweler Cymal 67(a)). Er ein bod yn cydnabod yr angen i rai rheoliadau gael eu gwneud ar sail y DU gyfan, am resymau cydlyniaeth a chysondeb, bernid ei bod yn hanfodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu'r rheoliadau i sicrhau eu bod yn cymryd safbwynt polisi Cymru i ystyriaeth. Rwyf yn falch o weld bod y dull gweithredu hwn wedi'i fabwysiadu yn y Bil.

Rwyf yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddelio ag amgylchiadau sy'n benodol i Gymru, yn ôl yr angen (er enghraifft rheoleiddio arddangosfeydd manwerthu ar gyfer fêps a chynhyrchion nicotin eraill yng Nghymru). Rwyf yn fodlon hefyd fod y weithdrefn sydd ynghlwm wrth bob un o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil yn briodol ac yn sicrhau bod y darpariaethau'n destun gwaith craffu digonol.

Bydd yr holl bwerau a gaiff eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil yn destun gwaith craffu'r Senedd yn unol â'n gweithdrefnau.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care